# DEDDF IECHYD Y CYHOEDD (ISAFBRIS AM ALCOHOL) (CYMRU) 2018

---

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

#### *Adran 10: Camau gorfodi gan awdurdodau lleol*

59. Mae is-adran (1) yn darparu y caiff awdurdod lleol ddwyn erlyniadau mewn cysylltiad â throseddau o dan y Ddeddf yn ei ardal, caiff ymchwilio i gwynion mewn cysylltiad â throseddau honedig yn ei ardal a chaiff gymryd camau eraill gyda golwg ar leihau nifer y troseddau o'r fath sy'n digwydd yn ei ardal.

60. Mae is-adran (2) yn darparu bod rhaid i awdurdod lleol ystyried, o leiaf unwaith bob blwyddyn, y graddau y mae'n briodol cynnal rhaglen o gamau gorfodi yn ei ardal, ac i'r graddau y mae'n ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny, gynnal rhaglen o'r fath.

61. Mae is-adran (3) yn darparu, wrth gydymffurfio â'r gofyniad hwn, fod rhaid i awdurdodau lleol yn benodol roi sylw i wella iechyd y cyhoedd ac amddiffyn plant rhag niwed.